BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Rhannu Straeon Gyda'n Gilydd



Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**booktrust.org.uk/cymru**

Charity number 313343

# Helô

Croeso i'ch pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar oddi wrth BookTrust Cymru.

Rydyn ni am i bob un plentyn a'u teuluoedd gael yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i fwynhau darllen gyda'i gilydd.

Yn y pecyn hwn, fe welwch chi 2 lyfr stori i'w rhannu â'ch plentyn. Mae'r llyfrau hyn yn anrheg iddyn nhw ei gadw.

Archwiliwch y llyfrau hyn gyda'ch gilydd, edrych ar y lluniau, rhoi'r llyfrau i'ch plentyn i afael ynddyn nhw ac i droi'r tudalennau.

Ar y tudalennau nesaf, fe welwch chi ambell awgrym oddi wrth rieni eraill i'ch helpu i rannu straeon a rhigymau â'ch plentyn.

Does yna 'run ffordd anghywir o edrych ar lyfr gyda'ch gilydd; mae yna lawer o ffyrdd i wneud darllen yn hwyl i chi a'ch plentyn.

I gael gweithgareddau, fideos a mwy, ewch i gael golwg ar y pecyn Blynyddoedd Cynnar ar wefan Cymru: **booktrust.org.uk/myearlyyearsbaginwales**

Mae Dechrau Da yng Nghymru yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru ac yn cael ei redeg gan BookTrust – elusen ddarllen fwyaf y DU.

Cyflwynir Dechrau Da yng Nghymru mewn partneriaeth â llyfrgelloedd ac iechydymwelwyr.





## Llyfrau i'w mwynhau gyda'i gilydd

I ddod o hyd i ragor o lyfrau i'w mwynhau â'ch plentyn fe welwch chi ein rhestr lyfrau yn nhudalennau canol y llyfryn hwn sydd yno i'w thynnu allan a'i chadw – fe allech chi fynd â hi gyda chi i'r llyfrgell lle y bydd staff cyfeillgar y llyfrgell yn gallu dangos adran y llyfrau plant ichi a'ch helpu i ddewis ychydig o lyfrau. Fe allech chi hefyd ymuno â sesiynau amser stori ac amser rhigwm gyda rhieni a phlant eraill.

## Dysgwr Cymraeg neu Ddechreuwr?

Gwelwch **booktrust.org.uk/myearlyyearsbaginwales** ar gyfer recordiadau sain o'r llyfrau dwyieithog yn y pecyn hwn.

# Awgrymiadau i'ch helpu i fwynhau llyfrau gyda'ch gilydd

Does yna 'run ffordd anghywir o ddarllen llyfr

Gofynnwch gwestiynau wrth edrych ar lyfr gyda'ch gilydd – ydyn nhw'n gallu dweud beth maen nhw'n ei weld ar y dudalen? Beth maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?

Gall rhigwm doniol dynnu sylw a chodi calon plentyn bach blin

Gall straeon amser gwely helpu i lonyddu a chysuro

Gwnewch yr hyn sy'n gweithio i chi – dydy darllen gyda'ch gilydd ddim yn gorfod bod yn berffaith

Peidiwch â phoeni os nad ydy'ch plentyn yn ymddangos fel petai'n gwrando



Fe allech chi ddefnyddio teganau neu gerddoriaeth wrth rannu stori i'w wneud yn fwy o hwyl

Cael hwyl! Gwnewch synau anifeiliaid neu effeithiau sain – mae'r rhain yn helpu i ddod â'r stori yn fyw ac fe fydd yn gwneud i'r ddau ohonoch chi chwerthin


Ceisiwch ddod o hyd i amser bob dydd i rannu stori, llyfr neu rigwm, sy'n gweithio i chi

Does ddim rhaid ichi eistedd yn llonydd na bod yn dawel – ewch â llyfrau gyda chi i'r parc, y siopau neu ar y bws

Gall aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau ymuno â'r hwyl hefyd

Os nad ydy'ch plentyn yn mwynhau'r stori, gofynnwch iddo/ iddi ddewis llyfr arall neu roi cynnig arni rywbryd eto

Mae pob plentyn yn wahanol ac fe fyddan nhw'n mwynhau mathau gwahanol o lyfrau a straeon – rhowch gynnig ar rywbeth newydd



# Awgrymiadau i'ch helpu chi a'ch plentyn i ddewis llyfrau gyda'ch gilydd

Fe allech chi fynd â'r rhestr hon i'r llyfrgell neu'r siop lyfrau neu ei defnyddio i'ch helpu i chwilio am lyfrau ar-lein. Mae yna lyfrau am bopeth; edrychwch ar y cwestiynau hyn gyda'ch gilydd i helpu i ddod o hyd i lyfr newydd i'w fwynhau.

Beth sy'n gwneud eich plentyn yn hapus?

Beth mae'ch plentyn yn hoffi'i wneud?

Oes ganddyn nhw hoff anifail?

Ydy'ch plentyn yn hoffi ymuno â'r gweithrediadau e.e. clapio, canu, rhigymu?



Oes ganddyn nhw hoff gymeriad o sioe deledu neu ffilm?

Ydyn nhw'n hoffi llyfrau gyda fflapiau i'w codi neu o wahanol weadeddau?

Ydy'ch plentyn yn mwynhau creu pethau?

Ydyn nhw'n hoffi natur a'r awyr agored?

Ydy'ch plentyn yn mwynhau chwaraeon?

Ydyn nhw'n mwynhau cyfrif?




**Neu beth am roi cynnig ar rywbeth newydd efallai; bydd eich plentyn yn dysgu beth mae'n ei hoffi ac yn dod o hyd i'w hoff bethau.**

# Pam fod darllen yn bwysig

- Mae rhannu straeon, caneuon a rhigymau â phlant ifanc yn helpu eu datblygiad
- Mae plant sy'n darllen yn rheolaidd yn fwy tebygol o wneud yn well yn yr ysgol
- Mae rhannu straeon yn helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas ac yn meithrin eu dychymyg

## Neges oddi wrth lyfrgelloedd yng Nghymru

- Mae llyfrgelloedd yn fannau perffaith i ddod o hyd i fwy o lyfrau i'w mwynhau â'ch plentyn
- Does ddim rhaid talu am ymuno ac fe allwch chi fenthyg llyfrau am ddim
- Dydyn ni ddim yn codi tâl am unrhyw lyfrau plant sy'n cael eu dychwelyd yn hwyr
- Ymunwch â ni ar gyfer sesiynau amser rhigwm neu amser stori lle gallwch chi gyfarfod â rhieni a gofalwyr eraill a rhannu straeon a rhigymau â'ch plant
- Mae gennyn ni lyfrau i chi eu mwynhau hefyd – fe allwch chi  ymuno â'r llyfrgell beth bynnag fo'ch oed
- Gofynnwch i ni am lyfrau ar rianta, delio â stranciau, cwsg, ymddygiad a materion eraill
- Mae llyfrgelloedd yn lleoedd addas i blant; does ddim rhaid i'ch plentyn fod yn dawel



**Gallwch chi ddod o hyd i'ch llyfrgell agosaf yn:**
**https://llyfrgelloedd.cymru**

# Llyfrau i'w mwynhau gyda'ch gilydd


Dyma rai o'n hoff lyfrau ni i'w rhannu â phlant 2-3 oed. Fe allwch chi dynnu'r rhestr hon allan a mynd â hi i'r llyfrgell neu'r siop lyfrau gyda chi i ddechrau dod o hyd i lyfrau difyr i'w rhannu gyda'ch gilydd.




## Pob un bwni'n dawnsio!

**gan Ellie Sandall**


Wrth i grŵp o gwningod doniol ddawnsio, canu, creu cerddoriaeth a chael peth wmbredd o hwyl, mae yna lwynog yn eu gwylio o bell. Mae'r llyfr hwn sy'n odli yn ddifyr ac mae yna ddarluniadau hyfryd ynddo.




## Dacw'r Car yn Dŵad

**gan Katrina Sharman a Nick Sharratt**


Llyfr lluniau perffaith ar gyfer cydganu â phlantos bach sydd wrth eu boddau â cherbydau. Darluniadau llachar o geir, bysiau, awyrennau, trenau, tryciau, cloddwyr a llawer iawn mwy o bethau sy'n symud.




## Deg Deinosor Bach

**gan Mike Brownlow a Simon Rickerty**

Llyfr cyfrif lliwgar yn llawn deinosoriaid drygionus, rhigymau a synau gwirion i'w gwneud gyda'ch gilydd.




## Snip Snap

**gan Ben Newman**


Stori wych am granc digywilydd a chrocodeil sydd ar berwyl drwg – gyda thudalennau wedi'u siapio i'w troi a llawer o eiriau swnllyd i'w rhannu.




## Magic Windows: Weather

**gan Libby Burns**


Yn berffaith ar gyfer plantos bach chwilfrydig sydd wrth eu boddau'n archwilio natur. Llyfr rhyngweithiol gyda darnau i'w tynnu i wneud i byllau, cymylau ac enfysau ymddangos yn y ffenestri hud.




## Broga'n Mynd ar Wyliau

**gan Carly Gledhill**


Gallwch chi ddilyn Broga ar ei deithiau. Gyda thudalennau wedi'u siapio, wedi'u plygu a thyllau i sbecian drwyddyn nhw. Beth fydd hanes Broga yn y diwedd?




## Gŵydd ar yr Fferm

**gan Laura Wall**

Mae gwydd a sophie yn gwneud llawer o ffrindiau newydd ar y fferm.




## Tedi Amser Gwely

**gan Ian Whybrow a Axel Scheffler**

Mae gan Bear antur yn dychwelyd i Tom ar gyfer amser gwely. Llyfr rhyming hyfryd gyda cyfrinachau arbennig sydd wedi'u cuddio ar y dudalen.